Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Maes y Gornel
# Heol Caradog
# Rhos
# Wrexham
# LL14 1DD

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Maes y Gornel wedi ei leoli mewn ystafell bwrpasol yn Ysgol I D Hooson, Rhosllannerchrugog er ei gofrestru yn 2008. Mae'r cylch yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant pentref Rhosllanerchrugog yn ogystal ag i blant o ardaloedd eraill, cyfagos. Mae'n rhan o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin ar ran Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar awdurdod addysg Wrecsam.

Nid oes un o'r plant sydd yn y cylch ar hyn o bryd o gartref ble mae'r Gymraeg yn unig iaith y cartref. Serch hynny, mae oddeutu 38% o'r plant o gartrefi ble defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg a'r gweddill o gartrefi ble defnyddir y Saesneg yn unig. Nid oedd unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar adeg yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad roedd 24 o blant tair oed yn mynychu'r cylch. Mynycha'r plant y cylch am ddwy awr y diwrnod, pum bore'r wythnos. Caiff y cylch ei staffio gan arweinydd, a thair cymhorthydd dysgu. Mae dwy o'r cymorthyddion yn rhannu un swydd.

Mae'r ystafell a ddefnyddir gan y cylch o faint da ac mae ardal chwarae ddiogel i'r plant y tu allan. Cynlluniwyd yr adnoddau hyn yn bwrpasol pan adeiladwyd yr ysgol newydd tua phum mlynedd yn ôl.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gallu'r plant yn amrywio'n sylweddol pan gychwynnant yn y cylch. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch, bydd bron pob plentyn yn trosglwyddo i Ysgol I D Hooson lle byddant yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gan yr holl staff gymwysterau addas yn addysg y blynyddoedd cynnar. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Hydref 2012. Hwn yw'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn cyflawni safonau priodol gan wneud cynnydd addas dros eu cyfnod yn y sefydliad;
- medrau cyfathrebu'r plant yn datblygu'n briodol;
- y cylch yn cynnig ystod o brofiadau dysgu i'r plant sy'n cyfarfod yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen; a bod
- gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant ac maent yn darparu profiadau addas ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd bod:

- disgwyliadau uchel wedi eu gosod ac mae'r cynllunio yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion y plant;
- cysylltiadau da yn bodoli â rhieni a gofalwyr sydd yn cyfrannu'n benodol at les plant;
- y pwyllgor rheoli yn ymgymryd yn effeithiol â'i gyfrifoldebau; a bod
- gan y cylch ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio yn rhoi sylw penodol i dasgau ffocws sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr er mwyn cryfhau'r dysgu.

A2 Cynllunio ystod ehangach o brofiadau dysgu amrywiol i wneud defnydd mwy effeithiol o'r cyfleusterau dysgu tu allan i'r adeilad.

A3 Gwneud defnydd mwy effeithiol o'r wybodaeth yn deillio o asesu cynnydd plant i gynllunio camau nesaf eu dysgu.

A4 Ehangu'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyflawni safonau priodol gan wneud cynnydd addas dros eu cyfnod yn y sefydliad. Yn gyffredinol, mae'r plant yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau a chwestiynau sylfaenol yn y Gymraeg ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon a rhigymau. Mae bron pob plentyn yn dangos ymdrech ganmoladwy gan ganolbwyntio'n dda ar dasgau. Maent yn gweithio'n dda ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a osodir iddynt. Maent yn medru gwneud dewisiadau syml ac ar y cyfan yn cyflawni'n dda.

Mae medrau cyfathrebu'r plant yn datblygu'n briodol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu sgwrsio'n rhydd gyda'i gilydd a gydag oedolion. Maent yn cwestiynu ac yn gwrando ar yr ymatebion; yn gallu trafod eu gwaith a'u chwarae yn dda a mynegi barn yn naturiol. Mae eu geirfa yn ymestyn yn gyson. Mae pob plentyn yn ymuno yn y gweithgareddau llafar ar adeg croesawu a chofrestru ac mae'r mwyafrif yn ymateb yn briodol mewn trafodaeth am y tywydd neu drefniadau'r dydd.

Mae mwyafrif y plant yn mwynhau datblygu eu medrau marcio gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau megis paent neu greonau a drwy symud eu bysedd drwy dywod. Mae llawer ohonynt yn mwynhau dewis llyfrau yn annibynnol ac mae llawer o'r plant hyn yn trin llyfrau fel darllenwyr, gan droi tudalennau ac ail-adrodd storïau cyfarwydd yn ystyrlon.

Mae'r holl blant yn datblygu dealltwriaeth o rif a gall y mwyafrif gyfrif i ddeg gydag oedolyn. Mae lleiafrif o'r plant yn adnabod siapiau syml ac yn gallu defnyddio termau megis mawr/bach, trwm/ysgafn, mwy/llai yn ystyrlon. Mae llawer o'r plant yn defnyddio ystod o raglenni cyfrifiadur yn hyderus ac yn trin yr offer, gan gynnwys y llygoden, yn fedrus.

**Lles: Da**

Mae'r plant yn hapus a chartrefol yn y lleoliad ac mae bron pob un yn setlo yn ddidrafferth ar gychwyn eu cyfnod yno. Mae perthynas dda rhyngddynt a'i gilydd a gyda'r staff ac maent yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac arweiniad oedolion ac yn dangos parch tuag atynt. Maent yn barod i ofyn am gymorth os oes angen.

Mae'r plant yn deall pwysigrwydd hylendid a diogelwch personol ac mae bron pob un ohonynt yn cymryd cyfrifoldeb am dacluso a chadw offer pan fo angen gwneud hynny. Maent yn ymwybodol bod angen gwisgo dillad pwrpasol ar gyfer gweithgareddau megis paentio a chwarae yn y dŵr ac maent yn eiddgar i wneud hynny. Mae'r mwyafrif yn golchi eu dwylo heb fawr ddim cymorth gan oedolion. Maent yn gwerthfawrogi yr awyrgylch trefnus a theuluol sy'n bodoli ar gyfer bwyta eu byrbryd. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol bod cynnwys y byrbryd yn eu helpu i fod yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymroi yn gadarnhaol i sialens gweithgareddau newydd. Maent hefyd, yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu, yn datblygu eu medrau fel dysgwyr a meddylwyr annibynnol. Maent yn mwynhau dewis gweithgareddau ac mae'r mwyafrif ohonynt yn canolbwyntio am gyfnodau addas wrth gyflawni tasgau. Mae bron pob plentyn yn cydweithio'n dda ar dasgau grŵp.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae staff y cylch yn cynnig ystod o brofiadau dysgu i'r plant sy'n cyfarfod yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cyfleoedd hyn wedi eu trefnu yn dda o fewn y gofod dysgu mewnol ac maent yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Caiff y gweithgareddau eu cynllunio ar sail trosolwg o waith tymhorol sy'n sicrhau bod pob maes dysgu yn cael sylw priodol dros amser. O fewn y trosolwg hwn mae cynllunio tymor byr y cylch yn rhoi sylw mwy penodol i gyfleoedd addysgu sy'n cyfoethogi dysgu'r plant yn effeithiol. Caiff yr ymarferwyr gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu i'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn darparu digon o weithgareddau ar gyfer grwpiau o blant, dan arweiniad ymarferwyr, sy'n ffocysu ar ddeilliannau penodol. Nid yw'r cynllunio chwaith yn rhoi digon o sylw i ddarparu amrediad priodol o gyfleoedd dysgu yn yr ardal ddysgu tu allan i'r adeilad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a chyfathrebu yn addas ac fe roddir pwyslais priodol ar sicrhau cyfleoedd pwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd a medrau ehangach y plant yn briodol. Cynllunnir gweithgareddau buddiol i'r plant ar gyfrifiadur ond prin yw'r cyfleoedd i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth arall megis camera digidol, peiriannau recordio neu deganau y gellir eu rhaglennu. Gwneir defnydd da o'r Gymraeg gan yr ymarferwyr ac maent yn cynnig cyfleoedd parhaus i'r plant ddatblygu eu medrau yn yr iaith. Caiff y ddarpariaeth ei gyfoethogi'n effeithiol gan fewnbwn rheolaidd swyddog iaith y Mudiad Meithrin.

Mae staff y cylch yn manteisio yn briodol ar gyfleoedd i feithrin dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchfyd ac mae'r plant yn gweithredu yn ymarferol i ailgylchu papur a phlastig. Mae'r holl ymarferwyr yn cynnig ystod briodol o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu gwybodaeth am eu hardal ac am wyliau Cymru. Prin, fodd bynnag, yw'r cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant. Maent yn darparu profiadau addas ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu sydd wedi eu seilio ar wybodaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r berthynas rhwng ymarferwyr a'r plant yn dda. Gwneir defnydd da o adnoddau'r cylch, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, i gryfhau'r dysgu.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm. Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau ac maent yn ymyrryd yn effeithiol i herio'r plant ac i gyfoethogi'r dysgu, pan fo hynny'n addas. Rheolir ymddygiad y plant yn effeithiol iawn.

Caiff cynnydd a lles plant ei asesu’n effeithiol a’i gofnodi’n rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr wybodaeth briodol am ddatblygiad plant unigol ac mae trefniadau priodol yn eu lle i gyfleu hyn i rieni a gofalwyr. Fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio’n rheolaidd i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu’r plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau a pholisïau priodol ar gyfer hyrwyddo byw’n iach a lles y plant. Anoga’r staff y plant i olchi eu dwylo a glanhau eu dannedd. Darperir byrbrydau iach yn ddyddiol. Mae trefniadau sefydlu’r cylch yn sicrhau bod plant yn setlo’n dda yn y lleoliad. Mae’r holl ymarferwyr yn deall sut i ymateb i achosion yn ymwneud â bwlio neu ymddygiad annerbyniol ac yn gwneud hynny’n effeithiol pan fo angen. Mae’r holl staff yn rhoi pwyslais da ar egwyddorion megis parch, tegwch a chydweithio ag eraill sy’n gymorth i sicrhau bod y plant yn teimlo’n gartrefol a diogel yn y cylch. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol plant yn effeithiol iawn.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol o’r ystod o wasanaethau cefnogol sydd ar gael gan y Mudiad Meithrin a’r awdurdod lleol ac yn eu defnyddio’n effeithiol pan fo’n briodol. Caiff anghenion unigolion eu hadnabod yn dda gan y staff ac fe ddarperir cefnogaeth addas i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad wedi llwyddo’n dda i sefydlu ethos cynhwysol a chynhaliol. Elfen drawiadol yw’r ethos teuluol sy’n bodoli pan fo’r plant a’r ymarferwyr yn cyd-fwyta’r byrbryd. Mae trefniadau da gan y cylch i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae’r gofod dysgu mewnol ac allanol yn addas iawn ar gyfer cyflwyno gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ardaloedd wedi eu diffinio’n dda o fewn yr ystafell ddysgu sy’n annog plant i ddefnyddio a chymryd diddordeb mewn adnoddau penodol i ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu cystal yn y gofod allanol. Mae gan y lleoliad ystod addas iawn o adnoddau o ansawdd da sydd cael eu defnyddio’n effeithiol i gyfarfod ag anghenion plant. Mae’r adnoddau hyn yn cefnogi dysgu’r plant yn effeithiol ar draws pob maes dysgu. Mae’r adeilad a’r gofod dysgu allanol o ansawdd da, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau bod yr ymarferwyr eraill yn cyfrannu at waith cynllunio’r cylch. Mae’r trefniadau hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd sy’n rhoi’r pwyslais priodol ar flaenoriaethau gwella. Mae’r trefniadau hyn hefyd yn gymorth i’r ymarferwyr ddeall eu rôl a’u cyfrifoldeb mewn perthynas â gweithgareddau dyddiol. Gosodir disgwyliadau uchel gan yr arweinydd ac mae’r cynllunio yn canolbwyntio’n briodol ar anghenion y plant. Mae swydd

ddisgrifiadau priodol ar gyfer pob aelod o staff. Mae trefn werthuso addas yn ei lle sy'n hybu gwella medrau ymarferwyr. Mae perthynas broffesiynol effeithiol wedi ei sefydlu gyda'r ysgol gynradd a gwasanaethau perthnasol yr awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin. Mae ansawdd darpariaeth y cylch yn elwa o hyn. Mae cysylltiadau da yn bodoli â rhieni a gofalwyr sydd yn cyfrannu'n benodol at les plant. Mae gofynion y Cyfnod Sylfaen wedi eu datblygu'n dda.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnwys cynrychiolaeth o blith rhieni ac mae'n ymgymryd yn effeithiol â'i gyfrifoldebau. Mae cadeirydd y pwyllgor yn cadw cyswllt agos â staff i drafod anghenion y cylch ac yn monitro'r blaenoriaethau yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Yn gyffredinol, mae gan y cylch ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi gwreiddio'n dda yng ngwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr i gyd yn cyfrannu'n briodol i'r trefniadau ar gyfer monitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Rhoddir sylw priodol i argymhellion yn deillio o ymweliadau athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg. Cyflwynir sylwadau rhieni drwy'r pwyllgor rheoli. Mae'r arweinydd a'r dirprwy arweinydd yn rhannu'r cyfrifoldeb o arwain y cynlluniau gwella'n effeithiol. Gwnaed cynnydd da ar gyfarfod â nifer o'r anghenion sydd wedi eu hadnabod ac mae'r gwaith o ddatblygu blaenoriaethau eraill yn parhau'n briodol.

Mae elfen gref o gydweithio rhwng yr ymarferwyr â'i gilydd a gyda'r pwyllgor rheoli. Mae'r ymarferwyr mwyaf profiadol yn rhannu arbenigedd yn dda ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd y dysgu. Mae ansawdd yr addysgu wedi elwa o gyfleoedd diweddar i ymarferwyr arsylwi arfer da mewn lleoliadau eraill cyfagos.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnal perthynas dda iawn â rhieni a gofalwyr. Caiff y berthynas ei chryfhau ymhellach drwy bresenoldeb rhieni ar y pwyllgor rheoli. Cyflwynir gwybodaeth i rieni am waith y cylch ar ddechrau a diwedd y sesiynau dyddiol a hefyd drwy gyfres reolaidd o lythyrau a chylchlythyrau. Mae gwybodaeth am weithgareddau a gofynion dydd-i-ddydd y lleoliad hefyd yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd ger y fynedfa.

Mae cysylltiad gweithredol effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol gynradd ble lleolir y cylch a datblygwyd rhai trefniadau buddiol i ddefnyddio adnoddau ar y cyd gan gynnwys cyd-gyflogi rhai aelodau staff. Mae bron pob plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad ac mae trefniadau priodol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth berthnasol am gynnydd plant i'r ysgol ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch. Mae hefyd drefniadau addas ar gyfer anwytho'r plant i ddosbarth meithrin yr ysgol sydd yn hyrwyddo lles y plant.

Mae perthynas weithredol dda yn bodoli gyda'r Mudiad Meithrin ac mae cyfraniad effeithiol gweithiwr cefnogi o'r Mudiad am un sesiwn yr wythnos yn cyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr y cylch yn ymwybodol o bwy y dylid cysylltu â hwy i sicrhau cyngor a chymorth ychwanegol pan fo angen hynny.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli yn sicrhau'r safon gorau o ddarpariaeth o fewn eu cyllideb a rheolaeth. Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o amser, profiad ac arbenigedd staff. Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod anghenion datblygu staff yn briodol ac maent wedi manteisio'n dda ar gyfleoedd datblygu o fewn trefniadau'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.

Caiff adnoddau ariannol eu defnyddio'n dda ac fe gysylltir gwariant yn briodol gyda chynlluniau gwella. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles plant. O ystyried y deilliannau da sy'n bodoli, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd deg holiadur gan rieni a gofalwyr. Mae pob ymateb yn nodi bod rhieni yn fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol a'u bod yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yno. Mae bron pob rhiant yn dweud bod eu plant yn mwynhau bod yn y lleoliad, bod yr ymarferwyr yn trin eu plant yn deg a gyda pharch a bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda. Mae bron pob rhiant hefyd yn teimlo bod eu plant wedi cael cefnogaeth dda i setlo yn y cylch pan oeddent yn cychwyn. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da, ond mae lleiafrif yn dweud nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am y cynnydd hwn. Mae ychydig hefyd yn nodi nad ydynt yn gyfforddus i gysylltu â'r cylch gyda chwestiynau neu i drafod problemau. Mae mwyafrif y rhieni yn teimlo bod eu plant yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer symud i'r ysgol ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch.

## Atodiad 2

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |